# Iechyd a Diogelwch

## Adroddiad Blynyddol

2020/2021

Hysbysiad: Mae data 'Damweiniau Anafiad' y Sector Addysg Uwch wedi'i ddiweddaru ar 17 Ebrill 2023 i gywiro anghysondeb.

## CRYNODEB O DDANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

| | | |
|---|---|---|
| **73.53%**<br>Presenoldeb yn y sesiynau cynefino staff canolog | **CYNEFINO (CANOLOG) STAFF NEWYDD** | **16.47% islaw'r targed** |
| **DEFNYDDWYR CYFRIFIADUR**<br> | **75.21%**<br>Cwblhau Hyfforddiant a Hunan-asesiad | **9.79% islaw'r targed** |
| **DAMWEINIAU A ARWEINIODD AT ANAFIADAU I STAFF**<br> | **9.6**<br>Damwain fesul bob 1000 o weithwyr | **Tebyg i'r Sector** |
|  | **CYFRADD ABSENOLDEB SALWCH YMYSG STAFF**<br>**3.87**<br>Dyddiau a gollwyd fesul gweithiwr Cyfwerth Amser Llawn | **0.53 dyddiau yn is na'r sector addysg uwch (20/21)** |

**Sylwch: mae'r holl ddangosyddion perfformiad yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y pandemig coronafeirws a'r gostyngiad canlyniadol mewn gweithio ar y safle a chwtogi llawer o weithgareddau.**

Fersiwn Gyhoeddwyd
Pennaeth Iechyd, Diogelwch a Lles y Campws
www.bangor.ac.uk/hss

**Mynegai** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| | Dangosyddion Perfformiad: Crynodeb | |
| 1. | Crynodeb o Covid-19 | 2 |
| 2. | Polisïau a Dogfennau Allweddol | 5 |
| 3. | Archwiliadau, Adolygiadau a Dadansoddi | 5 |
| 4. | Camau Gorfodi ac Ymweliadau Arolygu Statudol | 6 |
| 5. | Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch | 6 |
| 6. | Damweiniau a Digwyddiadau | 8 |
| 7. | Absenoldeb Salwch Ymysg Staff | 11 |
| 8. | Larymau Tân yn Canu | 15 |
| 9. | Achosion Sifil i Hawlio Iawndal (cysylltiedig ag iechyd a diogelwch) | 16 |
| 10. | Ystadegau'r Wefan | 17 |

## 1. CRYNODEB YNGHYLCH COVID-19

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn crynhoi cyfnod a gafodd ei effeithio'n gyfan gwbl gan y pandemig coronafeirws a gostyngiad nodedig mewn gweithgarwch ar y safle. Dylid darllen yr Adroddiad felly yn y cyd-destun hwn drwyddo draw.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, parhaodd gwaith iechyd a diogelwch i ganolbwyntio ar Covid-19 ac ymateb i ddealltwriaeth a dynameg cyfnewidiol y firws, a newidiadau yng nghanllawiau a gofynion Llywodraeth y Du, Llywodraeth Cymru a'r Sector AU. Mae'r Adroddiad yn adlewyrchu cyfnod pan bontiodd y Brifysgol o gampws a oedd yn ei hanfod yn 'gaeedig' i'w ail-agor a darparu dysgu 'cyfunol', a dychweliad gweithgareddau ar y campws. Yna cynyddodd nifer a math y gweithgareddau a gyflawnwyd yn sylweddol wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

<u>Paratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd</u>

*Sylwer: Nid yw'r Adroddiad yn canolbwyntio ar y gwaith sydd ei angen i ailagor y campws, Gorffennaf-Medi 2020, fel yr adroddwyd ar hyn yn yr Adroddiad Blynyddol diwethaf.*

Er mwyn helpu i baratoi ar gyfer dychwelyd i addysgu personol yn y cnawd, ym mis Medi 2020, sefydlodd Pwyllgor Gweithredu y Brifysgol dri Is-grŵp, sef: Y Grŵp Dychwelyd i'r Campws, Y Grŵp Dychwelyd i Ymchwil a'r Grŵp Addysgu a Dysgu. Sefydlwyd is-grwpiau ychwanegol, megis y Grŵp *Profi, Olrhain a Diogelu* hefyd i roi cyngor ar bynciau yn ymwneud yn benodol â Covid, yn ôl yr angen.

Nod y grwpiau hyn oedd hwyluso dychweliad diogel i'r campws, dychweliad gweithgareddau ymchwil hanfodol ar y campws a sicrhau bod myfyrwyr yn cael cynnig gwasanaethau addysgu a chymorth ar y campws, wyneb yn wyneb a'u bod yn gallu cymryd rhan mewn rhai Gweithgareddau cymdeithasol gydag Undeb y Myfyrwyr a chlybiau.

Er bod llawer o brifysgolion ar ddechrau'r flwyddyn academaidd yn parhau â darlithoedd ar-lein yn unig, ceisiodd Prifysgol Bangor sicrhau bod elfen o weithgarwch personol i bob cwrs. Roedd galluogi dysgu cyfunol yn arbennig o bwysig er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar y myfyrwyr hynny ar raglenni gradd mwy ymarferol a galwedigaethol ac fe'i hystyriwyd yn hanfodol i ddarparu profiad myfyriwr mor 'normal' â phosibl.

<u>Mannau Addysgu a Dysgu</u>

Ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2020/21 roedd yn rhaid asesu'r holl fannau addysgu a dysgu i sefydlu capasiti diwygiedig yn unol â'r gofyniad cadw pellter cymdeithasol o 2m ar y pryd. Gweithiodd staff Iechyd a Diogelwch a Gwasanaeth y Campws yn ddiwyd i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud ym mhob gofod, er mwyn sicrhau y gallai addysgu yn y cnawd ailddechrau ym mis Medi. Fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol diwethaf, tynnwyd cannoedd o ddarnau dodrefn, gosodwyd miloedd o farcwyr llawr a strapiau sedd, a gosodwyd posteri ac arwyddion.

<u>Defnyddio coetsys.</u>

I gefnogi teithiau maes a gweithgareddau myfyrwyr, cymeradwywyd defnyddio coetsys ar ddechrau'r flwyddyn. Fodd bynnag, gan gydnabod bod teithiau grŵp yn creu risg trosglwyddo uwch, lleihawyd capasiti coetsys yn sylweddol i alluogi teithwyr i gadw pellter cymdeithasol o 2m. Roedd rheolaethau eraill yn cynnwys mynd ar y bws a llenwi seddi o'r cefn i'r blaen, a dod oddi ar y bws yn y drefn wrthwyneb, gwisgo gorchuddion wyneb a theithwyr yn eistedd yn yr un sedd wrth fynd a dod, gyda chofnod yn cael ei gadw o bwy oedd yn eistedd ble ac ar ba goets.

<u>Achosion Coronafeirws yn ystod 2020/21</u>

Mae'n braf nodi na adroddwyd am unrhyw achosion o drosglwyddo'r coronafeirws y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i addysgu personol drwy gydol blwyddyn academaidd 2020/21.

Wrth gwrs, bu llawer o achosion o'r coronafeirws ymhlith y myfyrwyr a'r staff yn ystod y flwyddyn ac ar un adeg, gosodwyd cyfyngiadau coronafeirws lleol ar ddinas Bangor oherwydd cynnydd sydyn mewn achosion yn yr ardal.

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 roedd cyfanswm yr achosion Covid-19 yr adroddwyd amdanynt yn y Brifysgol yn **429**, gyda:

- 63 o achosion ymhlith staff
- 356 o achosion ymhlith myfyrwyr

Covid-19 a Theithio Tramor

Yn unol â chyfyngiadau cenedlaethol a rhyngwladol, cyfyngodd y Brifysgol y rhan fwyaf o deithio dramor yn ystod ychydig fisoedd cyntaf blwyddyn academaidd 2020/21. Bu i'r sefyllfa hon yn ymlacio ychydig ar gyfer rhai gweithgareddau allweddol, megis lleoliadau gwaith awdurdodedig / profiad rhyngwladol, ac ar gyfer nifer fach o fyfyrwyr ymchwil ôl-radd.

Neuaddau Preswyl

Ym mis Medi 2020 dychwelodd myfyrwyr, gyda bron i ddwy fil o fyfyrwyr yn cyrraedd y neuaddau dros gyfnod o ddeg diwrnod. Estynnodd y cyfnod cyrraedd dros sawl diwrnod i leihau nifer y bobl ar y safle a lliniaru tagfeydd. Roedd rhai gweithgareddau, megis cofrestru, hefyd yn cael eu trosglwyddo 'ar-lein' yn bennaf.

Drwy gydol y pandemig, mae'r Tîm Neuaddau gyda chefnogaeth y staff domestig ac arlwyo wedi darparu cymorth hanfodol i breswylwyr, gan gynnwys myfyrwyr a oedd yn hunan-ynysu ac mewn cwarantîn.

Goruchwylio Trefniadau Covid-19

I gefnogi'r Pwyllgor Gweithredu, cyfarfu'r Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau yn fisol o 1 Medi 2020. Cafodd y Grŵp Tasg ei hysbysu ac adolygwyd trefniadau ar gyfer rheoli risgiau strategol a thematig yn ymwneud â'r coronafeirws a cheisiodd sicrhau nad oedd agweddau eraill ar reoli iechyd a diogelwch yn cael eu heffeithio'n andwyol.

Chwaraeodd y Grŵp Tasg ran arweiniol hollbwysig wrth sicrhau bod dysgu cyfunol yn llwyddiant a bod y Brifysgol yn addasu a newid i adlewyrchu lefelau risg covid a newidiadau mewn deddfwriaeth a disgwyliadau.

Categoreiddio Risg o Weithgareddau COVID-19

Er mwyn galluogi cynnal gweithgareddau, datblygwyd a gweithredwyd protocol categoreiddio risg covid COCH / OREN / GWYRDD. Roedd y categori lliw yn seiliedig ar ofynion Profi, Olrhain a Diogelu Covid-19 ar gyfer hunan-ynysu pe bai achos o Covid-19 positif ymhlith carfan.

Fel sicrwydd ychwanegol, roedd angen cymeradwyaeth Deon y Coleg / Pennaeth Ysgol neu Wasanaeth Proffesiynol ar gyfer gweithgareddau OREN, a'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer gweithgareddau COCH.

Ystyriwyd bod y dull lliwiau wedi bod yn llwyddiant, gan gefnogi cynnal gweithgareddau gan roi sylw dyledus ar yr un pryd i risg a gofynion deddfwriaethol.

ASESIAD RISG

Disodlwyd Asesiad Risg Covid-19 cychwynnol y Brifysgol (*Lefel prifysgol: Trefniadau Rheoli mewn Ymateb i'r Coronafeirws [Covid-19]*) ym mis Mai 2020 gan fersiwn fanylach, a oedd yn edrych ymlaen at ailagor y campws a'r flwyddyn academaidd newydd.

Troswyd yr Asesiad Risg hwnnw wedyn i'r un cyfredol (fel y'i diwygiwyd). *Lefel prifysgol: Asesiad Risg* Atal Ymlediad Covid-19, sydd wedi'i diweddaru'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r asesiad risg yn ceisio sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu yn unol â deddfwriaeth coronafeirws berthnasol ac yn cael ei hategu gan nifer o asesiadau risg mwy arbenigol a gweithdrefnau gweithredu.

Ysbyty Enfys

Diolch byth, nid oedd angen Ysbyty Enfys, a sefydlwyd yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol, Canolfan Brailsford, ym mis Ebrill 2020 fel 'ysbyty' Covid-19. Fodd bynnag, chwaraeodd y cyfleuster ran annatod yn y rhaglen frechu torfol cyhoeddus, gyda mwy na **90,000** o 'frechiadau' yn cael eu darparu o fis Rhagfyr 2020 hyd nes y caewyd y ganolfan fel canolfan frechu ar 4 Gorffennaf 2021.

Darpariaeth Profion Covid PCR i Fyfyrwyr drwy'r GIG

Sefydlodd y Brifysgol ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyfleuster profi PCR i fyfyrwyr ar y safle.

Aeth y cyfleuster hwn ar y safle yn fyw yr wythnos cyn i'r dysgu ddechrau ym mis Medi 2020/21 a chynhaliwyd cannoedd o brofion swab ar gyfer

dadansoddiad PCR ar y safle gan staff y Bwrdd Iechyd.

Gwerthfawrogwyd cefnogaeth Y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn yn fawr a bu'r cydweithio yn llwyddiant pendant.

Cyfleuster Profi Asymptomatig i Staff a Myfyrwyr

Mewn hinsawdd o bryder na fyddai myfyrwyr prifysgol yn gallu dychwelyd adref ar gyfer y Nadolig (oherwydd y cyfraddau uchel iawn ar y pryd o Covid-19 ymhlith myfyrwyr), ym mis Tachwedd 2020 cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddent yn galluogi pob Prifysgol i ddefnyddio'r 'profion llif unffordd Covid-19' *Deloitte* ar gyfer cynnal profion torfol ar fyfyrwyr a staff i'w galluogi i ddychwelyd adref dros yr ŵyl.

Roedd y Ganolfan Profi Asymptomatig yn ymdrech logistaidd sylweddol, a oedd yn cynnwys llawer o ardaloedd yn y Brifysgol a chontractwyr lleol a adeiladodd y cyfleusterau dan bwysau amser anodd.

Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn llwyddo, cafodd dros 100 o fyfyrwyr a thua dwsin o staff eu recriwtio a'u hyfforddi i redeg y cyfleuster. Hyfforddwyd staff a myfyrwyr i gynnal profion llif unffordd â chymorth, sut i ddadansoddi samplau, protocolau profi a hyfforddwyd hwy fel cynorthwywyr profi, mewn gwasanaethau cwsmeriaid a nifer o swyddogaethau ategol eraill.

Roedd aelodau allweddol o staff o'r gymuned wyddonol a gwasanaethau canolog yn rheoli'r ddarpariaeth gyfan ac yn sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth yn bodloni safonau cytundebol.

Ar y 30ain o Dachwedd, agorodd y Brifysgol y Ganolfan Profi Covid Asymptomatig i staff a myfyrwyr yn Neuadd PJ. Dilynwyd y Ganolfan fawr hon, gyda 24 o fythau profi a gorsafoedd dadansoddol, yn fuan wedyn gyda dau safle profi lloeren llai ar gampysau preswyl Ffriddoedd a'r Santes Fair.

Ariannwyd mwy na 95% o'r gwasanaeth Profi Asymptomatig gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac arhosodd ar agor tan fis Mehefin 2021, pan y'i disodlwyd gan y pecynnau 'profi yn y cartref'.

Cynhaliwyd mwy na **10,000** o brofion asymptomatig COVID-19 gyda chymorth yng nghanolfannau prawf y Brifysgol, gyda chyfradd bositifrwydd o ddim ond **0.2%**.

Pecynnau Prawf Cartref LFD

O'r 1af o Fehefin 2021, ac ar yr un pryd â chau'r Cyfleuster Profi ar y safle, darparwyd pecynnau hunan-brofi i staff a myfyrwyr o 'ganolfannau' dosbarthu ar draws y Brifysgol. Cafwyd Pecynnau Prawf trwy fenter wedi ei hariannu gan DU ar gyfer cyflenwi offer profion llif unffordd Covid mewn sefydliadau addysg uwch. Parhaodd y gwasanaeth i flwyddyn academaidd 2021/22.

Profi, Olrhain a Diogelu

Roedd nodi cysylltiadau rhywun oedd wedi profi'n bositif i Covid-19 mewn modd amserol yn hanfodol i atal lledaeniad y feirws. Bu'r Brifysgol yn gweithio'n agos gyda thîm Covid-19 TTP Cyngor Gwynedd ac fe wnaeth cydweithwyr yn y Gwasanaethau Digidol addasu APP ymgysylltu â myfyrwyr presennol yn sylweddol i weithredu fel Offeryn Covid-19 i nodi cysylltiadau agos achosion cadarnhaol a gadarnhawyd. Roedd yr APP hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau Undeb y Myfyrwyr ac roedd yn galluogi gweithgareddau di-gwricwlaidd eraill i gael eu cyflawni.

Mae'r Covid-APP mewnol a'r trefniadau gweinyddol ynghylch ei ddefnyddio, wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac wedi galluogi profi, olrhain a diogelu rhanbarthol a'r Brifysgol i weithio'n agos ac yn llwyddiannus i ddeall sut roedd y firws yn effeithio ar y gymuned myfyrwyr ac i gael sicrwydd bod y Brifysgol yn rheoli risg yn effeithiol.

Mae'r trefniadau gweithio agos rhwng y Brifysgol a Chyngor Gwynedd, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd profi, olrhain a diogelu bob pythefnos a chyfranogiad yn y Tîm Rheoli Digwyddiad rhanbarthol, wedi bod yn llwyddiant nodedig. Galluogodd rhannu gwybodaeth i'r Brifysgol gael ei hysbysu am gyfraddau Covid yn y gymuned ehangach a rhoi sicrwydd i'r awdurdod lleol a phartïon eraill â diddordeb bod y Brifysgol yn parhau i weithredu'n gydwybodol ac yn broffesiynol trwy gydol y cyfnod.

## 2. POLISÏAU A DOGFENNAU IECHYD A DIOGELWCH ALLWEDDOL

Crynodeb o ddogfennau iechyd a diogelwch sefydliadol 'allweddol' newydd, diwygiedig ac a ddiddymwyd, a gafodd eu cyflwyno, eu dileu neu eu haddasu yn ystod y flwyddyn.

### • POLISÏAU NEWYDD A DIWYGIEDIG

Ni chyflwynwyd unrhyw bolisïau newydd yn 2020/21.

Yr unig adolygiad Polisi yn ystod y flwyddyn oedd i Ddatganiad Polisi Iechyd a Diogelwch cyffredinol y Brifysgol. Roedd y newid hwn yn ganlyniad i archwiliad a ganfu nad oedd Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol yn cyfeirio'n benodol at glefydau pandemig a sut y byddai'r Brifysgol yn ymateb ac yn rhoi trefniadau priodol ar waith i liniaru risgiau.

Mae'r gwelliant, a ystyriwyd ac a gytunwyd wedi hynny gan y Cyngor, yn darllen fel a ganlyn:

- *xvii. Ymateb i unrhyw bandemig neu epidemig a rhoi systemau, trefniadau a chamau rheoli addas ar waith i liniaru a rheoli risg ac i ddiogelu iechyd a lles staff a myfyrwyr.*

### • POLISÏAU A DDIDDYMWYD

Ni ddidymwyd unrhyw bolisïau yn 20/21.

## 3. ARCHWILIADAU, ADOLYGIADAU A DADANSODDI

Crynodeb o'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau sefydliadol, y Coleg a Phroffesiynol ac agweddau rheoli risg.

### • ARCHWILIO MEWNOL

Gweithio Gartref:
Roedd archwiliad mewnol ar weithio gartref a dychwelyd i'r campws wedi rhoi sicrwydd bod trefniadau addas ar waith.

Gwnaed mân argymhellion ac aethpwyd i'r afael â hwy.

Camau Rheoli Covid:

Ar ôl i'r Brifysgol ddechrau dysgu yn y cnawd, roedd yn hanfodol bod y rheolaethau a roddwyd ar waith i ddiogelu a lliniaru risgiau trosglwyddo Covid-19 yn cael eu gwerthuso. Er mwyn helpu i sicrhau hyn, cychwynnodd nifer o archwiliadau adeiladau Covid-19 o ddechrau mis Hydref.

Ceisiodd yr arolygiadau hyn gadarnhau addasrwydd a darpariaeth trefniadau Covid-19 cysylltiedig ag adeiladau, a sut y gellid eu cynnal (e.e, arwyddion, glanweithyddion dwylo, strapiau sedd ac ati) ac ymddygiad cyffredinol mewn addysgu, ymchwil, a mannau cyffredin.

Yn ystod mis Hydref, archwiliwyd **29** adeilad 'wedi'u meddiannu', gan gynnal tua **53** arolygiad monitro.

Cadarnhaodd yr arolygiadau fod y rhan fwyaf o'r trefniadau a'r gweithdrefnau ymarferol yn briodol, yn cael eu gweithredu a'u dilyn.

Yna parhaodd ymweliadau monitro rheolaidd trwy gydol y flwyddyn.

### • ARWEINYDDIAETH A RHEOLI

Ni adolygwyd "Arweinyddiaeth a Rheolaeth Iechyd a Diogelwch mewn Sefydliadau Addysg Uwch" Yr UCEA[1] / USHA[2] ei adolygu yn ystod y flwyddyn ac ystyriwyd bod y graddau o gydymffurfio o 2019/20 yn parhau i fod yn berthnasol.

| Cydymffurfio â'r Safonau Rheoli Cenedlaethol | |
|---|---|
| CYNGOR Y BRIFYSGOL | CYDYMFFURFIO 100% (17/17) |
| PWYLLGOR GWEITHREDU'R BRIFYSGOL | CYDYMFFURFIO 90% (28/31) |

### • AR LEFEL Y BRIFYSGOL: DANGOSYDDION RHEOLI RISG

**Ni adolygwyd dangosyddion risg thematig yn ystod y flwyddyn**. Gyda gweithgarwch cyfyngedig ar y safle ac yn adlewyrchu'r pwyslais ar liniaru risg Covid-19, penderfynwyd atal asesiadau risg thematig. Roedd trefniadau rheoli yn parhau yn eu lle ar gyfer y risgiau

[1]Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau

[2]Cymdeithas Diogelwch ac Iechyd y Prifysgolion

hynny a oedd yn dal yn berthnasol yn ystod y flwyddyn.

- **CRYNODEB PERFFORMIAD BLYNYDDOL COLEGAU/GWASANAETHAU (HUNANWERTHUSIAD)**

Ni wnaethpwyd hyn yn 2020/21.

- **TREFNIADAU RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH COLEGAU/GWASANAETHAU (ARCHWILIADAU)**

Mae archwiliadau rheoli iechyd a diogelwch fel arfer yn defnyddio safonau a sefydlwyd gan USHA/UCEA a'r safonau hynny a sefydlwyd drwy bolisïau iechyd a diogelwch y Brifysgol ei hun. Yna ategir y rhain trwy werthuso ymhellach y canllawiau ar gyfer adrannau 'thematig' yr archwiliad.

Ni chynhaliwyd adolygiad arfaethedig 2020/21 i sefydlu sut y gallai'r Tîm Iechyd a Diogelwch barhau i gynnal Archwiliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch y Coleg a Gwasanaethau. Roedd hyn yn bennaf oherwydd hirhoedledd gwaith yn ymwneud â Covid, a oedd yn llyncu amser ac adnoddau'r Tîm.

**CANLYNIADAU ARCHWILIADAU BLAENOROL**

- **ADOLYGU'R PERYGLON BIOLEGOL**

Cyfarfu Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol y Brifysgol ym mis Chwefror 2021. Er na chynhaliwyd yr arolygiad blynyddol ffurfiol o gyfleusterau HG2 yn 2020/21, cynhaliodd technegwyr lleol a Swyddog Diogelwch Biolegol y Brifysgol wiriadau i gadarnhau bod cyfleusterau'n cael eu gweithredu'n ddiogel ac yn ôl yr angen.

Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau sylweddol o beryglon biolegol.

- **YMBELYDREDD**

Ymwelodd Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd allanol y Brifysgol â'r Ysgol Radiograffeg yn Wrecsam ym mis Ebrill 2021 i gadarnhau trefniadau ar gyfer y cyfleuster Pelydr-X.

Yn ogystal, ymwelodd y Cynghorydd Diogelu a'r Swyddog Amddiffyn rhag Ymbelydredd â'r Ysgol Gwyddorau Meddygol i asesu diogelwch ymbelydredd a chydymffurfiaeth IRR17 ar gyfer y peiriant arbelydrydd pelydr-X MultiRad 160 y mae'r ysgol newydd ei brynu.

Ni nodwyd unrhyw bryderon sylweddol.

## 4. CAMAU GORFODI AC YMWELIADAU AROLYGU STATUDOL

Ni chymerwyd dim camau gorfodi yn erbyn y Brifysgol yn 2020/21. Ni ddechreuwyd unrhyw ymchwiliadau chwaith.

- <u>Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)</u>

Ni chafwyd unrhyw ymweliadau ffurfiol na gohebiaeth gorfodi/cwyno gyda'r HSE yn ystod y flwyddyn. Nid oedd unrhyw ffi am ymyriadau na hysbysiadau.

- <u>Gwasanaeth Tân ac Achub</u>

Ni chynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru unrhyw archwiliadau ffurfiol o adeiladau yn ystod y flwyddyn academaidd.

- <u>Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwrthderfysgaeth Cymru - cyfleusterau ymbelydredd</u>

Ni ymwelodd Arolygydd CNC a Gwrthderfysgaeth Cymru â chyfleusterau perthnasol yn ystod y flwyddyn. Parhaodd y cyfleusterau hyn i weithredu'n ddiogel yn ystod y flwyddyn

## 5. HYFFORDDIANT IECHYD A DIOGELWCH

Effeithiwyd yn sylweddol ar ddarpariaeth hyfforddiant iechyd a diogelwch yn ystod y pandemig, gyda gostyngiad yn nifer y sesiynau hyfforddi a pheidio â chynnal rhai ohonynt oherwydd cyswllt agos a chyfyngiadau Covid-19 eraill.

- **CYRSIAU HYFFORDDI IECHYD A DIOGELWCH** CYFFREDINOL

Yn ystod 2020/21 cafodd y cyrsiau canlynol eu darparu neu eu hwyluso gan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch canolog.

| Blwyddyn | Nifer y cyrsiau / Sesiynau | Staff/Myfyrwyr a gymerodd ran |
|---|---|---|
| 2020/21 | 8 | 25[3] |

[3] Ynghyd â 2,594 aelod o staff a myfyrwyr ôl-raddedig a gwblhaodd yr hyfforddiant cynefino ar-lein Gweithio gyda Covid

| | | |
|---|---|---|
| 2019/20 | 45 | 221 |
| 2018/19 | 45 | 291 |
| 2017/18 | 39 | 166 |
| 2016/17 | 67 | 299 |
| 2015/16 | 56 | 309[4] |
| 2014 | 100 | 579 |
| 2013 | 85 | 583 |
| 2012 | 106 | 719 |

Yn ogystal â'r cyrsiau hyfforddi uchod, crëwyd nifer o adnoddau i staff a myfyrwyr i ddarparu gwybodaeth am Covid-19. Roedd y rhain yn amrywio o Lawlyfrau Myfyrwyr y Coleg a chyflwyniadau i fideos staff a myfyrwyr a chyflwyniad Covid-19 ar gyfer staff sy'n dychwelyd i'r safle. Diweddarwyd y cyflwyniad trwy gydol y flwyddyn wrth i wybodaeth a deddfwriaeth newid.

Cwblhaodd cyfanswm o **2,594** aelod o staff a myfyrwyr ôl-raddedig yr **hyfforddiant gorfodol ynglŷn â Covid-19**.

- **CYNEFINO CYFFREDINOL I AELODAU STAFF**

| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** |  |
|---|---|

*Mae Sesiynau Cynefino Cyffredinol Staff yn ddangosydd perfformiad allweddol o ran Iechyd a Diogelwch Sefydliadol.*

**Targed:** Methwyd targed 2020/21 wrth 16.47%. Gwnaeth **125** allan o **170** aelod staff newydd (cymwys) dan gontract gwblhau Cynefino Cyffredinol Staff y Brifysgol. *Bydd y targed ar gyfer 2020/2021 yn aros ar 90%.*

Ar hyn o bryd, gwahoddir mwyafrif yr aelodau newydd o'r staff i ddod i'r Diwrnod Cynefino canolog i'r staff, lle cânt wybodaeth iechyd a diogelwch sefydliadol. Mae'r gyfradd bresenoldeb yn y digwyddiad hwn o'i gymharu â chyfradd penodi Staff newydd (fel sy'n berthnasol) yn sail i'r dangosydd perfformiad allweddol (targed).

Cynhaliwyd y sesiwn gynefino ar-lein trwy gydol 2020/21 oherwydd cyfyngiadau Covid-19.

| 90% oedd y targed ar gyfer 2020/21 | | |
|---|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** | **STATWS/GWERTH** | **NODIADAU** |
| Y canran o'r staff newydd (gwahoddedig) a aeth i sesiwn gynefino Iechyd a Diogelwch ganolog y Brifysgol[5] | **73.53%** **(16.47% islaw'r targed)** | Er yn is na'r targed, roedd hyn yn dal i fod yn welliant o**52.4%** ar berfformiad 19/20 |

***Sylwer:*** *Ni chaiff sesiynau cynefino mewnol ynglŷn ag iechyd a diogelwch (ar lefel ysgol/gwasanaethau/grŵp ymchwil) eu cofnodi'n ganolog ac felly ni chânt eu defnyddio ar hyn o bryd fel dangosydd perfformiad allweddol sefydliadol.*

- **HYFFORDDIANT I DDEFNYDDWYR CYFRIFIADURON**

| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** |  |
|---|---|

Mae hyfforddiant i ddefnyddwyr cyfrifiaduron (cyfarpar sgrin arddangos) yn ddangosydd perfformiad allweddol sefydliadol. Mae hyfforddiant o'r fath yn ofynnol dan y Rheoliadau cyfarpar sgrin arddangos.

**Sylwer:** Bydd Covid a 'gweithio o gartref' wedi effeithio'n sylweddol ar y DPA hwn.

**Targed:** Ni chyflawnwyd targed 2020/21 o 85%.


| 85% oedd y targed ar gyfer 2020/21 | | |
|---|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** | **STATWS/GWERTH** | **NODIADAU** |
| Canran Defnyddwyr Cyfrifiaduron (cyfarpar sgriniau arddangos) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein a'r hunan-asesiad | **75.21%** 9.79% yn is na tharged 2020/21 | **Gostyngiad o 9.8% ar berfformiad 19/20** --- Mae targed 2021/22 yn parhau i fod yn 85% |

Yn ystod 2020/21, bu i **154** aelod staff gwblhau'r hyfforddiant ar-lein i ddefnyddwyr cyfrifiaduron (gan ddod â'r cyfanswm i 82.96% o'r defnyddwyr

[4] Yn 2015/16 trosglwyddwyd Hyfforddiant Cyfarpar Sgrin Arddangos/Defnyddwyr Cyfrifiaduron ar-lein ac nid yw bellach yn cael ei gynnig fel cwrs hyfforddi wyneb yn wyneb e.e. roedd 137 o gyfranogwyr yn yr hyfforddiant defnyddwyr cyfarpar sgrin arddangos yn 2014

[5] Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys rhai grwpiau o staff llaw

cyfrifiaduron a amcangyfrifir sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant yn ystod y chwe blynedd diwethaf). Mae'r ffigwr hwn yn ostyngiad o 9.8% o gyfanswm y llynedd o 82.96% ac yn is na'r targed o 85%.





Mae'r tabl isod yn dangos y % o ddefnyddwyr cyfrifiaduron a gwblhaodd yr hunan-asesiadau (cydymffurfio) ym mhob Coleg, Ysgol a Gwasanaeth Proffesiynol.[6]

| Coleg/Gwasanaeth | % Cyfarpar Sgrin Arddangos |
|---|---|
| Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes | 73% |
| Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg | 67% |
| Coleg Gwyddorau Dynol | 67% |
| Canolfan Bedwyr | 69% |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 73% |
| Y Gwasanaethau Digidol | 94% |
| Gwasanaethau Cyllid | 93% |
| Adnoddau Dynol | 94% |
| Marchnata, Cyfathrebu a Recriwtio | 80% |
| Gwasanaethau Campws | 90% |
| Student Services and Administration | 93% |
| Undeb y Myfyrwyr | 76% |

- **CYMHWYSEDD**

Nid yw'r DPA hwn, sy'n adlewyrchu lefelau hyfforddiant iechyd a diogelwch ar gyfer uwch reolwyr, wedi newid ers y llynedd. Rhagwelir y bydd hyfforddiant uwch reolwyr ar gael yn 2021/22, yn dilyn gohiriadau oherwydd Covid-19, a bydd y DPA hwn yn cael ei ailgyflwyno yn Adroddiad y flwyddyn nesaf.


## 6. DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU

| DANGOSYDD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Mae’r pandemig wedi effeithio’n sylweddol ar nifer y damweiniau a’r digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt, a gostyngiad o’r herwydd yn nifer y staff a’r myfyrwyr ar y safle a gostyngiad mewn gweithgareddau. Adlewyrchir hyn ar draws y sector.

Yn ystod 2020/21, roedd **77** adroddiad achos, sy’n llai na 2019/20 (***141***). Roedd **29** o'r adroddiadau hyn yn ymwneud ag 'anaf' i rywun (heb fod yn ymwneud â chwaraeon), roedd **44** yn ymwneud â digwyddiadau na achosodd anafiadau (a fu bron â digwydd, sefyllfa beryglus neu arferion anniogel) ac roedd y **4** arall yn adroddiadau am ddigwyddiadau meddygol (megis llewygu, salwch a chonfylsiynau).


Digwyddodd y **29** anaf ar y safle a/neu yn ystod gweithgareddau dan arweiniad y brifysgol, i fyfyrwyr, staff, contractwyr ac ymwelwyr.




- **ANAFIADAU-DAMWEINIAU I STAFF A MYFYRWYR**

Parhaodd y cyfraddau damweiniau a digwyddiadau i ostwng yn 20/21, gan adlewyrchu’n sicr effaith barhaus y pandemig Covid a llai o weithgarwch ar y safle.

[6] Mae’r data hwn yn seiliedig ar staff a gyflogir ar 30 Gorffennaf 2021




Yn 2020/21, nifer damweiniau i staff a myfyrwyr a achosodd anaf o ganlyniad i'w gwaith neu eu hastudiaethau prifysgol neu a ddigwyddodd yn y brifysgol ac a adroddwyd amdanynt oedd **26** *(29 yn 19/20)*. O'r cyfanswm hwn, roedd 19 *(23 yn 20/21)* yn ddamweiniau'n ymwneud â staff a 7 (*6 yn 19/20*) yn ymwneud â myfyrwyr.

*Yn ychwanegol at adroddiadau anafiadau-damweiniau i staff/myfyrwyr, cafwyd **3** yn rhagor (11 yn 20/21) o adroddiadau am ddamweiniau a achosodd anafiadau i ymwelwyr a chontractwyr. Roedd pob un yn fân anafiadau.*

- **ANAFIADAU MAWR**


Doedd dim "anafiadau mawr" (fel y'u diffinnir) yn ystod y flwyddyn.

- **CYFRADD DAMWEINIAU A ACHOSODD ANAFIADAU (fesul 1000 mewn Risg)**

**Staff**

Y gymhareb damweiniau a achosodd anaf i staff yn 2020/21 oedd **9.6** o ddamweiniau i bob 1,000 o aelodau staff[7], gostyngiad o'r **11.5** i bob 1,000 a adroddwyd yn 2019/20. Y Gyfradd Genedlaethol yn 20/21 oedd **10**/1000.

Damweiniau a achosodd anafiadau
yn y Sector a Phrifysgol Bangor ar gyfartaledd i bob 1000
**o STAFF** (2011 – 2020/21)





| 13 | 14 | 15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16.4 | 15.2 | 21.3 | 22.4 | 16.5 | 22 | 21 | 11.5 | 9.6 |

**Myfyrwyr**

Yn 2020/21, bu **7** (*16 yn 19/20*) o ddamweiniau a achosodd anafiadau i fyfyrwyr o ganlyniad uniongyrchol i'w hastudiaethau, neu weithgarwch yn y brifysgol. Yn dangos cymhareb o **0.7** damwain fesul pob 1,000 o fyfyrwyr[8] Y Gyfradd Genedlaethol yn 2021/21 oedd 1.27/1000.

Damweiniau a achosodd anafiadau yn y Sector a
Phrifysgol Bangor ar gyfartaledd i bob 1000 O **FYFYRWYR**
(2011 – 2020/21)




| 13 | 14 | 15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | 1 | 1.7 | 2.4 | 2.4 | 1.5 | 1.3 | 0.6 | 0.7 |

- **DAMWEINIAU ANGEN ADRODD ARNYNT (RIDDOR)**

Yn ystod 2020/21 bu **2** o ddamweiniau a digwyddiadau yr oedd rhaid adrodd amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Roedd un digwyddiad yn ymwneud â myfyriwr â thoriad i'r bys, a oedd angen ei ludo yn yr adran damweiniau ac achosion brys. Digwyddodd yr ail

[7] Ar sail cyfrif o 1979 o aelodau staff yn ystod y flwyddyn

[8] Wedi ei seilio ar 9,592 o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn

ddamwain a roddwyd gwybod amdani i aelod o staff a gymerodd dros 7 diwrnod o'r gwaith yn dilyn cnoc i'r pen o wrthrych yn disgyn.

Cyfradd digwyddiadau RIDDOR i staff AU yn 2020/21 oedd **0.54/1000** (*CALl wedi'i addasu*). Roedd cyfradd Prifysgol Bangor yn 2020/21 yr un fath â 2019/20 yn **0.5/1000**.

Cyfradd digwyddiadau RIDDOR i fyfyrwyr yn genedlaethol oedd **0.033/1000** yn 2020/21. Cyfradd ddiweddaraf y brifysgol yn 2020/21 oedd **0.1 / 1000** *(0 yn 19/20)*.


Yn hanesyddol mae cyfraddau RIDDOR y brifysgol yn amrywio'n fawr fel y gwelir isod:

| Blwyddyn | Staff | Myfyrwyr | Ymwelwyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2020/21 | 1 | 1 | 0 | **2** |
| 2019/20 | 1 | 0 | 0 | **1** |
| 2018/19 | 5 | 1 | 1 | **7** |
| 2017/18 | 0 | 3 | 0 | **3** |
| 2016/17 | 1 | 1 | 0 | **2** |
| 2015/16 | 4 | 1 | 0 | **5** |
| 2014 | 7 | 1 | 0 | **8** |
| 2013 | 3 | 1 | 1 | **5** |
| 2012 | 0 | 2 | 0 | **2** |
| 2011 | 3 | 0 | 0 | **3** |
| 2010 | 3 | 3 | 1 | **7** |
| 2009 | 10 | 0 | 2 | **12** |

Nid oedd **unrhyw** Afiechydon Galwedigaethol na Digwyddiadau Peryglus i adrodd yn eu cylch yn 2020/21.


- **ACHOSION DAMWEINIAU (pob damwain)**

Roedd y rhan fwyaf o'r **29** damwain a arweiniodd at anafiadau'n ymwneud naill ai â chodi a chario (10 = 35%), rhywun yn cael ei daro gan rywbeth a oedd yn symud/yn syrthio (5 = 17%) neu lithro, baglu neu syrthio (7 = 24%); 7 arall.




- **DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU A ACHOSODD I STAFF GOLLI AMSER O'R GWAITH**

Roedd dau ddigwyddiad a achosodd i staff golli amser o'r gwaith yn 2020/21.




- **DIGWYDDIADAU'N YMWNEUD Â CHWARAEON**

Derbyniwyd **9** o adroddiadau am ddigwyddiadau'n ymwneud â chwaraeon (gweithgareddau anacademaidd), yn bennaf am anafiadau sy'n digwydd yn anochel wrth chwarae rhai chwaraeon.


Sylwch: cafodd y rhan fwyaf o weithgareddau chwaraeon cyswllt eu hatal yn ystod cyfnod Covid-19, ac adlewyrchir hyn yn y gostyngiad sydyn yn nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt.

- **DIGWYDDIADAU DRAMOR A THEITHIO DRAMOR**

Mewn ymateb i'r pandemig, gwaharddodd y Brifysgol deithio dramor o 6ed Mawrth 2020 (oni bai mewn amgylchiadau eithriadol). Yn dilyn hyn, roedd teithio dramor yn parhau i fod yn broblemus ac


wedi'i gyfyngu'n bennaf i leoliadau gwaith awdurdodedig/profiad rhyngwladol, ac i nifer fach iawn o fyfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig.

Yn ystod 2020/21, dim ond 88 o deithiau tramor yr aeth staff a myfyrwyr arnynt. Mae hyn yn ostyngiad o 94% ar 2018/2019, y flwyddyn academaidd ddiwethaf nad yw cyfyngiadau teithio Covid wedi effeithio arni.




Gwnaed 22 o hawliadau 'yswiriant' am deithiau yn 2020/21:

- Un cais am dreuliau meddygol oherwydd salwch yn Ffrainc.
- 3 achos o golled/difrod i eitemau personol.




- **DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â CHERBYDAU**

Gan fod y rhan fwyaf o logi ceir a theithio sy'n gysylltiedig â phrifysgolion wedi'u gohirio yn ystod y flwyddyn ni chynigir cyfradd digwyddiadau yn yr Adroddiad hwn.

Cerbydau Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb y Myfyrwyr yn endid cyfreithiol ar wahân gyda'i yswirwyr ei hun. Mae UyM yn 'berchen' ar 7 cerbyd; 4 bws mini, 1 MPV ac un fan.

Drwy gydol 20/21 nid oedd safon genedlaethol y cytunwyd arni ar gyfer gweithredu bysiau mini, gyda nifer o aelwydydd, yn ddiogel. O'r herwydd nid oedd yr UM yn gallu defnyddio bysiau mini ond parhaodd i ddefnyddio ei 'fan' a'i fysiau mini fel cerbydau i gludo caiacau ac ati i gyrchfan, gyda dim ond y gyrrwr yn y cerbyd.


Nid oedd felly **unrhyw** anafiadau traffig ffordd a adroddwyd neu hawliadau yswiriant ar gyfer bysiau mini.

Cyfanswm y pellter a deithiodd cerbydau Undeb y Myfyrwyr yn 2020/21 oedd **1,441** o filltiroedd, gostyngiad o 96% ar 2019/20 (35,074).

- **MONITRO SAFLEOEDD (ADEILADU A CHYNNAL A CHADW)**


Ni chynigir unrhyw fesur perfformiad yn yr Adroddiad hwn. Bydd yr adroddiadau Monitro Contractwyr yn ailddechrau yn 2021/22.

## 7. ABSENOLDEB SALWCH YMYSG STAFF

| | |
|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** (*dyddiau/CALl*) |  |

*Mae'r pandemig wedi effeithio'n uniongyrchol ar adroddiadau absenoldeb oherwydd salwch staff, yn arbennig o nodedig yw'r gostyngiad amlwg mewn adrodd ar absenoldebau tymor byr tra bod staff yn gweithio gartref neu ar ffyrlo.*


Mae'r brif gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y sector cenedlaethol ond yn agosach na blynyddoedd blaenorol. Mae absenoldebau hirdymor yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd y sector.




Yn 2020/21, collwyd 6,003 o ddyddiau gwaith o ganlyniad i absenoldeb salwch y rhoddwyd gwybod amdano. Mae hyn yn gyfystyr â chyfradd absenoldeb salwch ymysg y staff o oddeutu **3.87** diwrnod am bob gweithiwr cyfwerth amser-llawn[9] (3.96 diwrnod yn 2019/20).

Y cyfartaledd yn y sector yn genedlaethol yn 2020/21 oedd **4.4** diwrnod. Adroddodd y CIPD mai lefel absenoldeb gweithwyr ar gyfartaledd (Ebrill 2020) oedd 5.8 diwrnod y gweithiwr y flwyddyn, neu golli 2.6% o amser gwaith; sef yr isaf a gofnodwyd erioed gan yr Arolwg CIPD. Cofnododd cymharydd lleol, Cyngor Gwynedd, **6.35** diwrnod yn 2020/21 (Ebrill-Mawrth).

Mae Cyfradd Absenoldeb Salwch Prifysgol Bangor yn 2020/21, **sef 3.87 diwrnod** yn cyfateb i golli **1.77%** o amser gwaith[10] oherwydd absenoldeb salwch. Y gyfradd yn 2019/20 oedd **1.82%**.




Cadarnhawyd 78.54% (4,715 o ddyddiau gwaith, addaswyd ar gyfer CALI) o holl absenoldebau salwch gan dystysgrif meddyg, ac roedd y gweddill sef 21.46% (1,546 o ddyddiau, addaswyd ar gyfer CALI) yn rhai hunan-ardystio.

Roedd absenoldebau tymor hir, mwy nag 20 diwrnod, yn gyfrifol am **72.39%** (4,345 diwrnod gwaith o absenoldeb, wedi ei addasu ar gyfer FTE) o'r holl ddyddiau o absenoldeb y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2020/21, gan ddangos cynnydd o **27.7%** ar gyfanswm 2019/20.

*Nodir bod rhai cannoedd o staff ar ffyrlo yn ystod y flwyddyn, a llawer yn gwarchod eu hunain, ac o ganlyniad ni adroddwyd o reidrwydd am achosion o salwch ymhlith yr aelodau hyn o staff.*

| Canran absenoldeb oherwydd salwch hirdymor | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
| Bangor | 65.6% | 63% | 64% | 56.7% | 72.4% |
| Sector | 53.3% | 52.2% | 54.6% | 56.0% | 62.1% |

- **ABSENOLDEB SALWCH OHERWYDD COVID-19**

Adroddwyd bod 771 o ddiwrnodau wedi'u colli oherwydd absenoldeb salwch oherwydd Covid-19 (hyd at 31 Gorffennaf) gan effeithio ar 83 aelod o staff.

- **% STAFF A RODDODD WYBOD AM ABSENOLDEB SALWCH**

Bu gostyngiad yn nifer y staff a roddodd wybod am absenoldeb salwch yn 2020/21

Rhoddodd **359 aelod staff** wybod am absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn, mae hyn yn cyfateb i oddeutu **18.14%** o staff. Yn 2019/20 y gyfradd oedd **26.23%** a **28.91%** yn 2018/19.

- **TABL ABSENOLDEB SALWCH MEINCNOD (UCEA)**

Mae'r adran hon, a gymerwyd o adroddiad meincnod UCEA **2020/21**, yn darparu gwybodaeth ar sut mae Prifysgol Bangor yn cymharu â'r sector cyfan ac ag is-set prifysgolion sy'n rhannu'r un nodweddion (Cyn-92) a maint (bach). Mae UCEA yn diffinio sefydliad fel

[9] Seiliedig ar 1551.64 CALI ar gyfartaledd yn 2020/21

[10] Yn seiliedig ar flwyddyn waith o 260.715 diwrnod gwaith ar gyfartaledd

un "bach" os oes ganddo lai na 2000 o weithwyr. Mae 11 sefydliad yn yr un 'is-set' â Phrifysgol Bangor.

| **ADRODDIAD UCEA 2020/21** | | Holl sefydliadau AU (101) | | Sefydliadau addysg uwch bach Cyn-92 (11) | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mesur (CALI) | Bangor (PB) | Meincnod | Safle PB | Meincnod | Safle PB |
| Cyfartaledd dyddiau gwaith a gollwyd (dyddiau) | 3.9 | 4.4 | 33 | 5.3 | 4 |
| % dyddiau gwaith a gollwyd | 1.8% | 2.0% | 30 | 2.4% | 4 |
| **Cyfnod o absenoldeb ar gyfartaledd (diwrnodau)** | 10.2 | 7.8 | 83 | 7.8 | 10 |
| Dyddiau gwaith tymor byr a chanolig a gollwyd (dyddiau) | 1.1 | 1.7 | 6 | 1.7 | 1 |
| % absenoldeb salwch hir dymor | 72.4% | 62.1% | 88 | 67.0% | 9 |

Mae'r canlynol yn grynodeb achos absenoldeb salwch ar gyfer **2020/21**, fel y darparwyd gan adroddiad meincnod UCEA.

| **Pob Absenoldeb Salwch** (tymor byr, canolig a hir) | | | |
|---|---|---|---|
| **Categori Absenoldeb** | **Prifysgol Bangor** | Pob un (104) | Sefydliadau addysg uwch bach Cyn-92 |
| **RESP** - Asthma a phroblemau eraill ar y frest/anadlol gan gynnwys niwmonia, broncitis, pliwrisi | 0.8% | 2.3% | 2.6% |
| **CNCR** - Canserau a thiwmorau (anfaelan a malaen) | 7.1% | 4.1% | 4.9% |
| **COLD** - Annwyd, peswch, ffliw | 3.0% | 4.2% | 3.2% |
| **DEGP** - Diabetes a phroblemau endocrin/chwarennol eraill (e.e. diabetes, thyroid, metabolig) | 0.0% | 0.4% | 0.3% |
| **ENTD** - Problemau llygaid, clust, trwyn, gwddf a deintyddol | 3.1% | 3.1% | 1.9% |
| GNIT - Anhwylderau cenhedlol-droethol a gynaecolegol, ac eithrio beichiogrwydd | 6.4% | 1.7% | 2.2% |
| **MIGR** - Cur pen, meigryn a'r system niwrolegol/nerfol | 4.0% | 4.4% | 3.8% |
| **HEBL** - Anhwylderau'r galon, cylchrediad y gwaed a gwaed | 4.3% | 3.2% | 2.9% |
| **OPER** - Llawdriniaeth/adferiad/apwyntiad meddygol * | 0.0% | 5.4% | 5.6% |
| **INBP** - Anaf, llosgiadau a gwenwyno | 8.9% | 3.4% | 4.4% |
| **MNTL** - Iechyd meddwl gan gynnwys blinder, gwendid nerfol, camddefnyddio alcohol/cyffuriau | 30.8% | 32.6% | 28.3% |
| **MUSC** - Cyhyrysgerbydol, yn cynnwys problemau cefn/gwddf, twnnel y carpal, tendonitis | 7.8% | 10.2% | 12.0% |
| **INFC** - Clefydau heintus eraill (e.e. eryr) | 0.0% | 1.4% | 0.4% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **PREG** - Anhwylderau cysylltiedig â beichiogrwydd | 2.3% | 1.2% | 1.0% |
| **SKIN** - Anhwylderau croen | 0.9% | 0.4% | 0.9% |
| **STMC** - Problemau stumog / treulio / gastroberfeddol (e.e. chwydu gastroenteritis, dolur rhydd) | 5.6% | 5.0% | 5.0% |
| **COVD** - Achosion a amheuir neu a gadarnhawyd o Covid-19 | 12.9% | 7.0% | 5.3% |
| **OTHR** - Achosion hysbys eraill nad ydynt yn dod dan y categorïau UCEA | 2.1% | 5.0% | 4.8% |
| **UNKN** - Achosion anhysbys/heb eu nodi ** | 0.0% | 5.3% | 10.5% |

*Nid yw Prifysgol Bangor yn cofnodi o dan y categori Adferiad Ôl-lawdriniaethol UCEA gan fod y categori salwch/cyflwr gwirioneddol yn cael ei ddefnyddio fel adlewyrchiad mwy ffeithiol o achos absenoldeb.*

- **CYFNODAU O ABSENOLDEB TYMOR HIR**

Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm cyfnodau absenoldeb yr holl achosion o salwch tymor hir a ddaeth i ben yn 2020/21, o'i gymharu â 2019/20, 2018/19 and 2017/18.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol gellir gweld bod y mwyafrif o absenoldebau (tymor hir), 60%, wedi dod i ben o fewn cyfnod o 2 fis.

Absenoldebau hirach nag 20 diwrnod a ddaeth i ben yn 2020/21 (cymharydd 2019/20, 2018/19 a 2017/18)

| Absenol-deb mewn misoedd | Nifer achosion 2017/18 | Number of Instances 2018/19 | Number of Instances 2019/20 | Number of Instances 2020/21 |
|---|---|---|---|---|
| ≤2 | 43 | 67 | 55 | 53 |
| ≤3 | 18 | 8 | 21 | 17 |
| ≤4 | 7 | 6 | 5 | 5 |
| ≤5 | 7 | 7 | 2 | 2 |
| ≤6 | 3 | 9 | 3 | 3 |
| ≤7 | 5 | 2 | 1 | 5 |
| ≤8 | 0 | 2 | 0 | 2 |
| ≤9 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| ≤10 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| ≤11 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| ≤12 | 0 | 0 | 0 | 0 |


- **ACHOSION ABSENOLDEB SALWCH**


**Sylwer:** *Mae grwpiau achosion yn cyfeirio fel arfer at absenoldebau a ardystiwyd gan feddyg yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys achosion am absenoldeb hunan-ardystiedig. Fodd bynnag, mae data ar gyfer 20/21 yn cynnwys tystysgrifau anfeddygol ar gyfer absenoldebau* ***dros 7 diwrnod****, oherwydd anawsterau yn mynd i feddygfeydd yn ystod Covid-19.*

Unwaith eto gwelir mai salwch seicolegol ac achosion cyhyrysgerbydol sy'n gyfrifol am y ganran fwyaf o absenoldebau yn ystod y flwyddyn.


Dyma ddosbarthiad y **dyddiau a gollwyd** *(amser i ffwrdd)* ar gyfer y prif gategorïau achosion absenoldeb[11]:

[11] Fodd bynnag, mae data ar gyfer 20/21 yn cynnwys tystysgrifau anfeddygol ar gyfer absenoldebau dros 7 diwrnod, oherwydd anawsterau yn mynd i feddygfeydd yn ystod Covid-19.




Mae achosion absenoldebau hir dymor (niferoedd / digwyddiadau) fel a ganlyn:




- **COLEGAU A GWASANAETHAU PROFFESIYNOL**

Oherwydd ailstrwythuro Ysgolion a Gwasanaethau Proffesiynol yn 2021, ni allwn ddarparu dadansoddiad o absenoldeb salwch.

- **CADW GOLWG AR IECHYD**

Yn ystod 2020/21 cafodd oddeutu 96 aelod staff arolygon iechyd gan arbenigwyr i gadarnhau nad oedd eu gwaith yn niweidio eu hiechyd.

Rhoddir arolwg, o wahanol fathau, i staff os ydynt yn defnyddio offer sy'n dirgrynu ac sy'n agored i lefelau sŵn uchel iawn yn rheolaidd, ac i rai gwyddonwyr ymchwil, staff technegol a staff sy'n cynnal tiroedd y brifysgol, gweithwyr sydd ar shifftiau, gyrwyr sydd ar gontractau ac arbenigwyr trin anifeiliaid.

Ni nodwyd unrhyw ganlyniadau a oedd yn cael effaith niweidiol ar iechyd yn 2020/21.


Darperir Arolygon Iechyd yn bennaf i gadarnhau nad yw rhai risgiau yn y gwaith yn cael effaith andwyol ar iechyd staff. Yn ystod 2020/21 cynhaliwyd pob arolwg iechyd yn unol â chanllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru a'r Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch ac yn bennaf trwy holiaduron, gyda rhai apwyntiadau wyneb yn wyneb yn cael eu blaenoriaethu.

## 8. LARYMAU TÂN YN CANU

| DANGOSYDD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Mae gan y Brifysgol dros gant o adeiladau ar nifer o safleoedd, a'r mwyafrif wedi'u diogelu gan systemau canfod tân awtomatig a larymau tân. Mae tua 9,000 o synwyryddion mwg/gwres wedi'u gosod ar draws yr ystâd.


Yn ystod 2020/21 cafwyd **98** o achosion o larymau tân yn seinio yn adeiladau'r brifysgol, gostyngiad o 3% ar y 73 yn 2019/20.



Daeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru **22** gwaith, cynnydd ar y **18** gwaith yn 19/20. Roedd **21** o'r achlysuron hyn *(17 yn 19/20)* i Neuaddau Preswyl rhwng 8pm ac 8am.

Gellir rhannu'r cyfanswm hwn (98) i ddynodi'r nifer o weithiau y canodd y larymau yn yr adeiladau preswyl a'r adeiladau academaidd/gweinyddol sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o ystâd y brifysgol.

Larymau Tân yn canu fesul ystâd




Yn 2020/21 bu cynnydd bychan yn y nifer o weithiau y seiniwyd larwm tân mewn adeiladau academaidd a gweinyddol i **36** o **32** (19/20). Bu cynnydd yn yr achlysuron o larymau tân yn seinio yn y Neuaddau Preswyl i **62** yn 20/21, o 41 yn 2019/20, 52 yn 2018/19, 59 yn 2017/18. Gellid priodoli'r cynnydd i fyfyrwyr yn preswylio am y flwyddyn gyfan, ar ôl i lawer adael Neuaddau yn gynnar yn 19/20 oherwydd bod addysgu ar-lein, gyda'r gyfradd preswyl fel y ddwy flynedd flaenorol.


Cafwyd 10 achos maleisus yn 2020/21.

Cyfradd achosion seinio larymau tân /1000 o ganfodyddion

| Ystâd | 20/21 | Tuedd |
|---|---|---|
| Neuaddau Preswyl[12] | 14.3/1000 | I fyny* |
| Academaidd a Gweinyddol[13] | 7.8/1000 | I fyny* |

*Bydd Covid-19 a'r cyfnod clo wedi cael effaith sylweddol ar nifer yr achosion

Larymau tân yn canu fesul 1000 o Ystafelloedd Gwely[14]




| | 11/12 | 12/13 | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BU | 32 | 30 | 35 | 33 | 25 | 22 | 20 | 17.6 | 13.9 | 24[15] |
| Sector | 96 | Dim data ar gael | | | | | 72 | | | |

- **TANAU**

Roedd dau dân mewn Neuaddau, un achlysur o dostiwr yn dechrau mygu ac yn cynnau yn ddiweddarach, a'r llall yn fyfyriwr yn gosod ffon arogldarth yn eu bin yn yr ystafell wely nad oedd wedi diffodd yn llawn. Cafodd y ddau dân eu diffodd yn lleol.

Roedd chwe thân 'fu bron â digwydd', a ddiffinnir fel digwyddiad 'a oedd yn ymwneud â mwg yn unig, heb fflamau. Pump oherwydd digwyddiadau yn ymwneud â choginio mewn Neuaddau ac un oherwydd ysmygu anghyfreithlon (ymysg pethau eraill) mewn ystafell wely.

## 9. HAWLIADAU SIFIL (YN YMWNEUD AG IECHYD A DIOGELWCH)

Yn 2020/21 dim ond **un** Hawliad Atebolrwydd Cyflogwr lle cafodd aelod o staff anaf i'r pen ar ôl cael ei daro gan wrthrych yn disgyn.

Yn 2019/20 cafwyd dau Hawliad Atebolrwydd Cyflogwr yn dilyn anafiadau a gofnodwyd yn y gwaith a phedwar Hawliad Atebolrwydd Cyhoeddus.

[12]Yn seiliedig ar 4736 o synwyryddion mewn neuaddau
[13] Yn seiliedig ar 3264 o synwyryddion mewn adeiladau academaidd

[14]Yn seiliedig ar 2573 o ystafelloedd gwely. Nid oedd unrhyw ddata ar gael ar gyfer y Sector rhwng 2012 - 2016 a dim byd ers 18/19
[15] In 2019/20 the figure of 2960 study bedrooms was used

## 10. YSTADEGAU'R WEFAN

Yn 2020/21 edrychwyd ar **18,082 (-27%)** o dudalenau unigol ar y wefan Iechyd a Diogelwch, ac edrychwyd ar **23,312** o dudalennau i gyd **(-34%).** O'r rhain, y pum tudalen fwyaf poblogaidd yr ymwelwyd â hwy oedd:

- Covid 19 (tua 20% o'r dudalen ac ymweliadau unigryw).
- Asesiadau Risg
- Cyswllt A-Z.
- Cyfrifianellau Laser.
- Cerdded Er Lles Iechyd.

**Diwedd**